Creu dôl fechan

Gwasgarwch tamaid o hud ar y ddaear. Gall hadau edrych yn ddiflas ond arhoswch i weld pa flodau fydd yn tyfu. Mae dôl o flodau gwyllt yn hyfryd ar gyfer pob math o greaduriaid bach.

1 Mae angen paratoi'r tir i ddechrau. Cliriwch yr ardal o borfa a chwyn, yna cribiniwch y tir fel bo'r pridd yn foel.

2 Cymysgwch y ddau becyn o hadau gyda'i gilydd, a'u gwasgaru'n ysgafn ar y tir.

3 Cerddwch dros yr ardal er mwyn pwyso'r hadau yn dyner i'r pridd. Yna dyfriwch eich dôl rhyw ychydig.

Byddwch angen

- Pecyn o hadau blodau gwyllt
- Pecyn o hadau glaswellt mân (nid rhygwellt, sy'n tyfu'n rhy gryf a chyflym)
- Cribin
- Pedair brigyn
- Llinyn
- Siswrn

4 Rhowch y brigau ym mhob cornel. Clymwch linyn o'u cwmpas er mwyn gweld lle mae'r ddôl wedi'i phlannu. Byddai hynny'n rhwystro pobl eraill (a chithau!) rhag sefyll yno'n ddamweiniol.

5 Gwyliwch eich dôl yn tyfu!

yn rhoi cartref i fyd natur

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, yn Yr Alban SC037654 040-1-0513-16-17
Lluniau gan David Tipling (rspb-images.com)Blodau gwyllt gan Ernie Janes (rspb-images.com)